**Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon**

**Adroddiad i'r Cynulliad**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9 mae'n ofynnol i'r holl bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar eu gwaith i gyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 11 Mehefin 2003 a 31 Mawrth 2004.

## 2. Yr Aelodau

2.1 Yn ystod y flwyddyn bu'r canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Rosemary Butler | (Llafur, Gorllewin Casnewydd, y Cadeirydd) |
| Alun Pugh | (Llafur, Gorllewin Clwyd, y Gweinidog) |
| Leighton Andrews | (Llafur, y Rhondda) |
| Lorraine Barrett | (Llafur, De Caerdydd a Phenarth) |
| Eleanor Burnham | (Democratiaid Rhyddfrydol, Gogledd Cymru) |
| Lisa Francis | (Ceidwadwyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru) |
| Denise Idris-Jones | (Llafur, Conwy) |
| Elin Jones | (Plaid Cymru, Ceredigion) |
| Laura Jones | (Ceidwadwyr, Dwyrain De Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru, Canol De Cymru) |

## 3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod hwn cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol 11 o weithiau. Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn gyhoeddus. Cafwyd pum cyfarfod preifat ar gyfer 'rapporteurs' a fu'n ystyried cynlluniau corfforaethol pum corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a dau gyfarfod preifat i ystyried fersiynau drafft adroddiad y Pwyllgor ar "Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru".

## 4. Ymweliadau

4.1 Bu'r Pwyllgor ar naw ymweliad yn ystod y flwyddyn. Roedd dau'n ymwneud â'r adolygiad polisi ar gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon at adfywio cymunedol: prosiectau yn Abertawe ac ymarfer City Songs Opera Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Y prosiectau yn Abertawe oedd Canolfan Phoenix yn Townhill, y ganolfan datblygu economaidd gymunedol gyntaf o'i math yng Nghymru; Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a fydd yn agor yn 2005 ac a fydd yn adrodd hanes y newidiadau cymdeithasol economaidd a welwyd yng Nghymru yn ystod y Chwyldro Diwydiannol ac wedi hynny; a phwll Cenedlaethol Cymru a agorwyd i'r cyhoedd ym mis Mai 2003.

4.2 Aeth y Pwyllgor i weld Diversions, hynt Canolfan y Mileniwm ac arddangosfa Artes Mundi yn yr Amgueddfa Genedlaethol lle cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod ym mis Chwefror 2004.

4.3 Bu’r Pwyllgor yn ymweld â phedwar corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wrth iddo ystyried eu cynlluniau corfforaethol. Ar ei ymweliadau â Chyngor Celfyddydau Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg aeth i weld eu swyddfeydd; yn y Cyngor Chwaraeon gwelwyd y cyfleusterau yng Ngerddi Soffia; a chynhaliwyd cyfarfod yr Amgueddfa Genedlaethol yn Sain Ffagan lle cafodd yr Aelodau gyfle i weld rhai o’r arddangosfeydd.

**5. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau**

5.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Mae portffolio'r Gweinidog yn cynnwys: y celfyddydau, amgueddfeydd, henebion a llyfrgelloedd, ieithoedd Cymru, y cyfryngau a darlledu, chwaraeon a hamdden a materion loteri.
Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys gorolwg ar naw corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (CCNC) a chyrff cyhoeddus sy’n cael cymorth grant.

5.2 Rhestrir cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

**6. Nodau ac Amcanion**

6.1 Disgrifiodd y Pwyllgor ei nodau yn y Flaenraglen Waith Strategol ar gyfer y cyfnod o fis Mehefin 2003 hyd fis Rhagfyr 2004, a gymeradwywyd ar 2 Gorffennaf 2003. Y nod oedd cadw’r ddysgl yn wastad rhwng craffu ar y Gweinidog a chyfrannu at ddatblygu polisïau drwy gynnal adolygiadau polisi.

**7. Hynt y Gwaith**

7.1 Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar ei adolygiadau polisi. Cynhaliwyd dau adolygiad yn ystod y flwyddyn. Cafodd adroddiadau hefyd oddi wrth y Gweinidog ym mhob cyfarfod.

**7. Datblygu ac Adolygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7)**

**Adolygiad o Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru**

8.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal yr adolygiad hwn yn ei gyfarfod cyntaf ar 11 Mehefin 2003. Dyma’r cylch gorchwyl:

Adolygu

- cyfraniad llyfrau ac ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru at ddiwylliant Cymru;
- y dulliau o gefnogi llenorion yng Nghymru, gan gynnwys dramodwyr ac awduron sgriptiau;
- y dulliau cefnogi ar gyfer cynhyrchu a marchnata ysgrifennu newydd, gan gynnwys cefnogaeth y sector preifat; a
- dulliau o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lenyddiaeth a llenorion cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

8.2 Cafwyd 35 o ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig, a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf ac Awst. Cynhaliwyd tair sesiwn dystiolaeth lafar yn ystod mis Hydref – Rhagfyr a bu 18 o sefydliadau/unigolion yn cyflwyno'u safbwyntiau i'r Pwyllgor.

8.3 Gwnaeth y Pwyllgor 19 o argymhellion yn ei adroddiad, 9 ohonynt yn flaenoriaethau. Roedd y rhain yn deillio o bob rhan o'r adolygiad: marchnata; cymorth i awduron a chyhoeddwyr; addysg; gweithiau clasurol; llyfrgelloedd; llyfrwerthwyr a gwobrau.

8.4 Lansiwyd yr adroddiad ar 31 Mawrth a chynhaliwyd dadl ar y diwrnod hwnnw yn y Cyfarfod Llawn.

**Adolygiad o Gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol**

8.5 Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl yr adolygiad yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2003, sef:

Adolygu ac ystyried:

- y cysylltiadau rhwng y polisïau ym meysydd y celfyddydau, chwaraeon ac adfywio cymunedol;
- sut y gall prosiectau lleol ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon gyfrannu at adfywio cymunedol;
- y dulliau cefnogi ar gyfer prosiectau ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol;
- yr arferion gorau o ran prosiectau ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol.

8.6 Cynhaliwyd ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod mis Medi – Rhagfyr, a chafwyd 53 o ymatebion. Clywyd tystiolaeth lafar mewn tri chyfarfod ym mis Chwefror a mis Mawrth 2004; daeth 14 o unigolion/sefydliadau i'r cyfarfodydd i gyflwyno'u safbwyntiau. Disgwylir cynhyrchu drafft cyntaf yr adroddiad cyn toriad yr haf.

**Materion Polisi Eraill**

8.7 Cyfrannodd y Pwyllgor at yr ymgynghoriad ar Ddiogelu Asedau Hanesyddol yng Nghymru, a drafodwyd â Phrif Weithredwr CADW ym mis Tachwedd 2003. Cynhaliwyd sesiwn hefyd ar ffynonellau cyllid Ewropeaidd ar gyfer diwylliant a chafwyd cyflwyniad gan aelod o Swyddfa Cymru ym Mrwsel.

**9. Craffu ar Ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))**

9.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried hynt y Mesur Cyfathrebu gan gynnwys y cynnig i sefydlu swyddfa OFCOM Cymru. Bu hefyd yn ystyried y Mesur Hapchwarae drafft a gyfeiriwyd ato gan Gyd-Bwyllgor y Mesur Hapchwarae Drafft.

**10. Monitro a Chraffu (Rheol Sefydlog 9.7 (ii) a (iii))**

10.1 Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio pum corff cyhoeddus isod a noddir gan y Cynulliad:

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg

10.2 Cytunodd y Pwyllgor i newid y ffordd y mae'n craffu ar gynlluniau corfforaethol y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Yn hytrach na'u cynnwys ar yr agenda ffurfiol bu 'rapporteurs' y Pwyllgor yn ymweld â phedwar o'r cyrff i drafod eu cynlluniau'n breifat; daeth y Llyfrgell Genedlaethol i swyddfa'r Cynulliad yng Nghaerdydd gan nad oedd amser i deithio i swyddfeydd y Llyfrgell yn Aberystwyth. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn ystod y toriad ddechrau mis Medi 2003 a chyflwynwyd adroddiad ar y canlyniadau a'r materion a gododd i'r Pwyllgor Llawn ar 24 Medi. Ymddangosodd y cyrff cyhoeddus dan sylw gerbron y Pwyllgor llawn ym mis Mawrth i drafod hynt y gwaith. Bu'r arbrawf yn llwyddiant o ran y Pwyllgor a'r cyrff cyhoeddus a bydd o leiaf ddau Bwyllgor arall yn dilyn yr esiampl.

10.3 Craffwyd ar y Gweinidog ym mhob cyfarfod cyhoeddus ffurfiol ond un. Cafodd yr Aelodau gyfle i holi'r Gweinidog am ei adroddiad i'r Pwyllgor ac ar adroddiadau llafar ar faterion llosg megis dyfodol yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, lle bu llawer iawn o drafod.

10.4 Cyfeiriwyd yn rheolaidd yn yr adroddiadau ysgrifenedig at hynt datblygiadau'r tair dogfen bolisi ar chwaraeon, y Gymraeg a'r celfyddydau a diwylliant. Cyfeiriwyd hefyd at adolygu arian y loteri, yr amgylchedd hanesyddol a dyfodol Clwyd Theatr Cymru

**11. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)**

11.1 Y Cadeirydd, Rosemary Butler, ac Owen John Thomas oedd aelodau enwebedig y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Ymgynghorwyd â hwy yn ystod y flwyddyn ar benodi Cadeiryddion dau gorff ac aelodau ar gyfer y cyrff hynny a chwe chorff arall.

**12. Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8)**

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2004-2005 a gwnaeth sylwadau arni. Ceir llythyr y Cadeirydd yn nodi argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad 2.

**13. Materion Trawsbynciol**

13.1 Bu Pwyllgor Rhanbarth y De Ddwyrain yn ystyried adolygiad polisi'r Pwyllgor ar gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon at adfywio cymunedol. Bu'r Cadeirydd yn annerch y cyfarfod. Yn rhan o'r un adolygiad, gwnaeth y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol gyflwyniad i'r Pwyllgor ar adolygiad y Pwyllgor hwnnw o Cymunedau'n Gyntaf.

## 14. Y Cynlluniau Statudol

14.1 Mae'r Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, y cynllun datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal yn ei waith. Mae hefyd wedi rhoi ystyriaeth i ofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

## 15. Rhaglen y Dyfodol

15.1 Prif bynciau trafod y Pwyllgor yn 2004-2005 fydd:

- cwblhau'r adolygiad polisi ar gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon at adfywio cymunedol
- ymateb y Gweinidog i adroddiad y Pwyllgor ar "Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru"
- ystyried cynnal adolygiad polisi yn y dyfodol ar y Diwydiannau Creadigol
- materion cyfredol ym maes y cyfryngau a darlledu
- canlyniad cyfarfod y Comisiwn Archwilio â'r Amgueddfa Genedlaethol yn sgil adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Reoli Casgliadau.

**Rosemary Butler**
**Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
**Mai 2004**

**Atodiad 1**

**Dyletswyddau'r Pwyllgor**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn un o saith pwyllgor pwnc. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

"9.7. Bydd pob Pwyllgor Pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu;
iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob Pwyllgor Pwnc hefyd,

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;
ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20;
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf.

**Atodiad 2**

**PWYLLGOR DIWYLLIANT,**
**Y GYMRAEG A CHWARAEON**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Alun Pugh AC
Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y
Gymraeg a Chwaraeon

19 Tachwedd 2003

Annwyl

**CYLLIDEB DDRAFFT 2004-05 HYD 2006-07**

Diolch i chi am roi cyflwyniad i'r Pwyllgor yr wythnos diwethaf ar y gyllideb ddrafft. Roedd yn dda gan y Pwyllgor weld eich bod wedi ystyried ei brif flaenoriaethau, a nodwyd yn fy llythyr ar 15 Gorffennaf.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r £150,000 ychwanegol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei roi i Middleton ac mae hefyd yn cefnogi'r newydd y bydd yn parhau i ariannu costau datblygu prosiectau megis Canolfan y Mileniwm ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Lleisiwyd pryder fodd bynnag ynghylch y bwriad i leihau cyllideb y portffolio o'r ffigurau mynegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor ar 24 Medi a'r ffigurau yn y Pwyllgor yr wythnos diwethaf. Roedd yr Aelodau'n pryderu'n arbennig mai'r Gronfa Ddiwylliant fyddai ar ei cholled fwyaf. Rwy'n cael ar ddeall y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnal Adolygiad o Wariant wrth baratoi ei chyllidebau o 2004/5 ymlaen ac yn ystyried adolygiad Trysorlys y DU o wariant. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn manylion y rhain.

Fe wyddoch hefyd fod rhai Aelodau wedi mynegi siom na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwrw ymlaen â'r Gronfa Ffilm arfaethedig, ac yn arbennig felly gan fod arian Amcan Un Ewropeaidd wedi'i roi. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech roi gwybod i'r Pwyllgor am fwriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran y diwydiant ffilm yn sgil adolygiad y Gweinidog Datblygu Economaidd ac Awdurdod Datblygu Cymru o'r cymorth a roddir i'r diwydiannau creadigol. Dywedodd y Pwyllgor hefyd y byddai'n dda ganddo gael nodyn ar y cymorth a roddwyd gan y Llywodraeth a'r Loteri i'r diwydiant yn y gorffennol.

Mae'n dda gan y Pwyllgor eich bod wedi ategu eich ymrwymiad i adolygu'r amserlen ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Corfforaethol y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i'r Pwyllgor er mwyn hwyluso'r gwaith o ystyried y gyllideb.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid.

Yn gywir



**Rosemary Butler AC**
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

cc Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus